

IW OSOD

**Cynefin Ddefaid Tŷ Mawr,
Cwm Elan,
Rhaeadr.**

**140.80 o hectarau
(oddeutu) (347.90 erw) o
Borfa Barhaol Agored**



**Ymddiriedolaeth
Cwm Elan**

**Elan Valley
Trust**

Cefndir

Mae Ystâd Elan yn leoliad trawiadol, sy'n cwmpasu rhyw 72 milltir sgwâr ym Mynyddoedd Cambria, Canolbarth Cymru. Dyma gyfle i ymuno â chymuned ffermio ucheldirol a chyfrannu at reoli'r ystâd. Bydd y tenant llwyddiannus yn:

- Ymuno â chymuned ffermio sefydledig a chydweithredol
- Cael cyfle unigryw i chwarae rhan yn y tirwedd eiconig hon yng nghanolbarth Cymru
- Gweithio ochr yn ochr â sefydliadau, gan gynnwys y Perchennog a Dŵr Cymru Welsh Water i sicrhau buddion natur, gyda chefnogaeth a chyd-drefniant.

Rydym yn chwilio am denant sydd yn:

- Chwaraewr tîm - wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â chymdogion a'r perchennog
- Barod i roi cynnig ar ddulliau a thechnegau newydd
- Arloesol, gydag agwedd bositif

Mae dull o ffermio sydd o fudd i natur a'r dirwedd o bwysigrwydd arbennig i'r Ymddiriedolaeth, gan gynnwys:

- Pori cadwraeth (pori cymysg yn ddelfrydol)
- Rheoli llysydfiant ymledol (rhedyn, glaswellt molinia ac ati)
- Adfer a diogelu corsydd mawn
- Adfer grug
- Annog rhywogaethau prin o blanhigion, infertebratau ac adar i ffynnu
- Cydweithio mewn cynlluniau rheoli tir gyda chominwyr cyfagos.



Stad Elan, Rhaeadr Gwy

Mae Ymddiriedolaeth Cwm Elan yn cynnig cyfle prin i ffermio 140.80 hectar (odduetu 347.90 erw) sy'n dal o fewn Ystâd Elan. Ymddiriedolaeth Cwm Elan (yn ffurfiol Ymddiriedolaeth Elan Dŵr Cymru; Rhif Elusen 1001347) sy'n gyfrifol am weinyddu'r rhan fwyaf 72 milltir o sgwâr Ystâd Elan. Mae Ystâd Elan yn dod o fewn Mynyddoedd Cambrian (ardal a ddynodwyd gynt yn Ardal Amgylcheddol Sensitif (ESA)), yn Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ar gyfer adar gwyllt, mae ganddi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ar gyfer cynefinoedd ac mae'r rhan fwyaf o'r tir wedi'i ddynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA neu SSSI). Amcanion yr Ymddiriedolaeth yw hyrwyddo cadwraeth, mynediad cyhoeddus priodol a lledaenu gwybodaeth am yr ystâd. Mae'r holl dir fferm agored yn ddarostyngedig i hawl mynediad cyhoeddus ar droed, ac mae yna lawer o hawliau tramwy a manau eraill o ddiddordeb. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn ymdrechu i gynnig cyfleoedd tenantiaeth newydd i'r rhai sy'n rhannu gwerthoedd amcanion ac uchelgeisiau'r Ymddiriedolaeth a bydd yn gweithio gyda thenantiaid i ddatblygu systemau ffermio gwerth natur uchel fel modd o gyflawni ein hamcanion.



Ffigur 1: Golygfa tuag at gogledd-orllewin Gorffennaf 2023

Cynefin Ddefaid Tŷ Mawr

Mae Cynefin Ddefaid Tŷ Mawr yn ymestyn i ryw 140.80 hectar (347.90 erw) o borfa barhaol heb derfyn sy'n ffinio â Thir Comin Cwmdaiddwr ac mae wedi'i leoli ym mhen gogleddol Cronfa Ddŵr Graig Goch ger Ffordd Mynydd Aberystwyth a thua 5 milltir o dref farchnad Rhaeadr. Cyfeirnod Grid SN 912 717

Mae gan y cynefin ddefaid agored hwn gorlannau trin defaid efo mynediad uniongyrchol i gerbydau oddi ar Ffordd Mynydd Aberystwyth. Mae'r daliad yn gorwedd yn gyfan gwbl o fewn yr ardal a ddynodir yn "Llai Ffafriol" gan gynnwys dynodiadau fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig. Mae'r tir yn gorwedd rhwng cyfuchliniau'r 1000' a'r 1600' ac mae ganddo agwedd ddeheuol yn bennaf.

Tenantiaeth

Mae'r daliad yn cael ei gynnisg i'w osod o 13 Mai 2024 fel Tenantiaeth Busnes Fferm o dan ddarpariaethau Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995. Bydd y denantiaeth am gyfnod cychwynnol o 15 mlynedd gyda thelerau penodol i'w cytuno rhwng y partïon.

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus lofnodi cytundeb tenantiaeth safonol yr Ymddiriedolaeth. Mae copi o'r cytundeb ar gael ar gais neu ar bob adeg resymol yn Swyddfa Ystâd Elan, Pentref Elan.

Diadell Defaid

Does dim defaid cynefin y perchennog ar y daliad.

Pori Cadwraeth

Byddai'r defnydd o bori cymysg o fudd i'r daliad a byddai'r Perchennog yn barod i gydweithio â'r tenant i fuddsoddi mewn system bori Nofence ar y daliad a chynorthwyo darpariaethau ar gyfer corlan trin addas.

Glastir a SoDdGA

Roedd opsiynau Glastir ar waith tan 31 Rhagfyr 2023, a bydd y Perchennog yn parhau i'w ffermio yn unol â hynny tan 13 Mai 2024. Y gyfradd stocio uchaf fu 0.05 LUs yr hectar ar gyfer 1 Hydref a 31 Mawrth ac ar gyfer 1 Ebrill a 30 Medi mae o leiaf 0.17 LUs ac uchafswm o 0.31 LUs yr hectar. Cyfrifoldeb y tenant bydd cadw at unrhyw gynlluniau rheoli tir mewn perthynas â'r SoDdGA, fodd bynnag, gallwn gynghori bod rhywfaint o drugarogrwydd yn y cyfraddau isaf yn ystod y flwyddyn gyntaf gan y byddai'r pori gorau posibl yn cynnwys, dyweder 15 o wartheg rhwng Mehefin a Medi a allai fod yn fuddsoddiad sylweddol.



Ffigur 2: Corlannau trafod presennol Mawrth 2024



Ffigur 3: Golygfa ar draws y Dyffryn Mawrth 2024

Hawliau a Chynlluniau Cymorth yn y Dyfodol

Nid oes unrhyw hawliau Cynllun Taliad Sylfaenol wedi'u cynnwys gyda'r gosodiad hwn. Nid yw'r daliad wedi'i gynnwys yng Nghynllun Cynefin Cymru ar hyn o bryd oherwydd trawsnewidiadau rheoli. Dymunir i'r tenant gymryd rhan yn agweddau cyffredinol, dewisol a chydweithiol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy maes o law. Cyfrifoldeb y tenant bydd gwneud cais am gynlluniau cymorth yn y dyfodol fel sy'n briodol ar gyfer y Daliad. Mae'r daliad hwn yn cael ei gynnig nawr felly mae gan y tenant y cyfle i hawlio yn BPS 2024 a gwneir pob ymdrech i ddyfarnu'r denantiaeth mewn modd amserol i alluogi hyn.

Ymweliad

Cysylltwch â Swyddfa Ystâd Elan i drefnu apwyntiad a derbyn cyfarwyddiadau ymweliad. Gweld yn ystod golau dydd gyda chopi o'r manylion hyn yn eu meddiant yn unig. Defnyddiwch y maes parcio ym Mhont ar Elan a chynnal ymweliadau ar droed. Byddwch yn barchus i'r preswlydd presennol a pheidiwch ag achosi aflonyddwch diangen.

Amrywiol

Cynnig: Mae'r daliad yn cael ei gynnig i'w osod drwy dendr a rhaid dychwelyd pob tendr i Swyddfa Ystâd Elan, Pentref Elan, Rhaeadr, Powys, LD6 5HP erbyn 12:00 hanner dydd **ddydd Mawrth 9^{fed} Ebrill 2024** a rhaid ei ddynodi'n glir felly. Rhaid cyflwyno tendrau ar y ffurflen atodedig a rhaid iddynt gynnwys y wybodaeth ganlynol:-

- Enw llawn, cyfeiriad a manylion eu teulu;
- Rhent y flwyddyn gynnigir ar gyfer y daliad.
- Manylion llawn profiad blaenorol yr ymgeisydd.
- Manylion llawn system ffermio bresennol yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol)
- Cyfalaf ac adnoddau eraill sydd ar gael.
- Cynigion yr ymgeiswyr ar gyfer defnyddio'r daliad yn y dyfodol sydd yn cael ei gynnig, gan gynnwys dulliau ffermio cadwraeth ar gyfer natur.
- Cynigion cyllideb manwl am o leiaf 3 mlynedd ar gyfer y fferm, ynghyd â Chynllun Busnes 5 Mlynedd.
- Enwau a chyfeiriadau 3 person y gellir cael geirdaon ganddynt, gyda un ohonynt yn Reolwr Banc yr ymgeiswyr os yw'r cais yn cynnwys benthyca arian, os na vyfeirnod ariannol/masnachol.
- Enw a chyfeiriad perchennog tir presennol yr ymgeiswyr (os oes un).

Bydd cyfweiliadau yn cael eu cynnal yr wythnos sy'n dechrau **15^{fed} Ebrill 2024**.

NODER: Rhoddir y wybodaeth yn y manylion hyn yn ddidwyll ond ni ellir ei hystyried yn rhan o unrhyw gontract. Nid yw'r Perchennog yn rhwymo eu hunain i dderbyn y tendr uchaf nac yn wir unrhyw dendr.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â :-

Charlotte Harley BSc (Hons) MRICS FAAV

Rheolwr Eiddo ac Asiant Tir
Swyddfa Ystad Elan
Rhif Ffôn 01597 810449
E-bost: charlotte@elanvalleytrust.org

Charis Denham BSc (Hons) MRICS FAAV

Rheolwr Asiant Cynorthwyol ac Eiddo
Swyddfa Ystad Elan
Rhif Ffôn 01597 810449
E-bost: charis@elanvalley.org.uk




Ffigur 4: Corlannau Trin Mawrth 2024



Ffigur 5: Golygfa i fyny'r dyffryn Gorffennaf 2023

Cynllun Lleoliad



Nid i graddfa. At ddibenion adnabod yn unig.

ALLWEDD: Cynefin Defaid wedi'i amlinellu mewn coch. Comin Cwmdauddwr a ddangosir mewn pinc.

Manylion Caeau

Parseli Caeau	Maint (Ha)
SN9071 2968	7.94
SN9071 6933	21.96
SN9072 6401	110.90
Cyfanswm	140.80
	347.9 erw

Manylion parcel caeau a gymerwyd o RPW Ar-lein.



Ffigur 6: Golygfa o Ffordd y Mynydd Gorffennaf 2023

Ymddiriedolaeth
Cwm Elan

Elan Valley
Trust

RHYBUDD PWYSIG: Mae Ymddiriedolaeth Cwm Elan wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y manylion a'r wybodaeth arall a ddarperir mor gywir â phosibl ac na fwriedir iddynt fod yn gyngor y dylech ddibynnu arno fel rhai ffeithiol gywir. Mae unrhyw fesurau a phellter a roddir yn fras yn unig. Dylai prynwyr neu denantiaid fodloni eu hunain o'r holl uchod trwy archwiliad annibynnol neu fel arall. Mae Ymddiriedolaeth Cwm Elan nac unrhyw un sy'n ei chyflogaeth neu'n gweithredu ar ei ran yn gwneud unrhyw warantau neu warantau cynrychiolaethau, boed yn eglur neu'n ymhlyg, mewn perthynas â'r eiddo, neu fod y cynnwys yn y manylion hyn yn gywir, yn gyflawn neu'n gyfredol. Mae'r manylion hyn at ddibenion gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid ydynt yn cynrychioli cynnig contract neu ran o un.